

YR OLEW O LŶN AT BOB GEWYN

Gan
DEWI R. JONES

GANED RICHARD Evans, Pwllheli, ym Mhen-y-groes yn 1868 yn fab i John Evans a oedd yn un o feibion yr hen Richard Evans o Dyddyn Bengam. Yr ŵyr hwn mewn gwirionedd oedd yr olaf o olynwyr hen feddygon esgyrn Tyddyn Bengam oherwydd er iddo briodi ddwywaith ni aned iddo blant ac o ganlyniad ni throsglwyddwyd ymbellach y gallu rhyfeddol hwnnw i drin esgyrn.

Sut yn y byd mawr y mae egluro dawn teulu cyfan i ymwneud â chrefft mor arbennig sy'n fater na fedrwn ni byth mo'i ddatrys ond fel y nodir yn **Meddygon Esgyrn Môn** mae hi'n haws cael diafol o galon dyn na'i daid o'i esgyrn. (Ac y mae'n rhaid i'n rhesymeg ninnau ildio a derbyn mai etifeddeg yw'r dylanwad cryfaf ar bryd a gwedd, ar gymeriad ac ar ddawn a gallu dynion.

Wedi meithrin digon ar ei grefft, aeth Richard Evans ati i agor busnes yn Gaol Street, Pwllheli, siop a welid yn ei dydd yr ochr uchaf i Astons. Ac enw ardderchog oedd arni hefyd - Adferle; y lle i adfer mewn gwirionedd oherwydd yr oedd ynddi bopeth at esgyrn a chyrn.

PRISIAU GREGYNOG

SYFRDANDOD y rhifyn diwethaf o'r **Casgliwr** oedd hysbyseb R.G. a J.E. Young o Lanystumdwy yn cynnig hanner cant o gyfrolau Gwasg Gregynog ynghyd â rhai manion o'r wasg enwog am £22,000 - bargaen na welwyd ei thebyg ym marchnad ail-law y llyfrau Cymreig.

A gawsant eu prynu? Do - ac ni aethant ymhellach na'r gororau. Ac fe werthodd hefyd grynsyth y cyfrolau drudfawr eraill yn yr hysbyseb, gan gynnwys Beibl Cromwell a gynigid am £500. Pob un ohonynt wedi ei brynu gan Gymry i aros yng Nghymru.

Chwiliwch trwy hysbyseb ein hen gefnogwr David Hughes, Llandudno yn y rhifyn hwn ac fe gewch ddewis o gyfrolau Gregynog y medwrch eu prynu'n unigol. O gofio i nifer o'r llyfrau yma gael eu cyhoeddi am bumpunt fe welwch faint y codiad yn y gwerth a sylweddoli y medr llyfrau droi'n fuddsoddiad da hefyd.

Enghraifft ddiddorol arall o brinder a phris yw EIFIONYDD Colin Gresham a gyhoeddwyd am ddeupunt yn 1973. Wedi mân hysbysiad yn **Y Casgliwr** y llynedd fe werthodd copi am ganpunt. Ac os astudiwch hysbysiad Alun Jones Llên Llŷn yn y rhifyn hwn fe welwch gopi ar werth am £90, ynghyd â chopi arall ar werth yn y mân-hysbysadau.

Gyda llaw, sylwed aelodau newydd y medrant gynnwys eu mân-hysbysadau am ddim yn **Y Casgliwr**.



Hen siop Richard Evans yn nhre Pwllheli.


Os sylwch yn fanwl ar y gwydr sy'n rhan o'r drws fe gewch fod yr un gwydr yn union i'w weld heddiw ar ddrws y brif swyddfa yn Ysbyty Gobowen, ysbyty yr oedd gan y teulu hwn gysylltiad agos ag ef yn ei ddyddiau cynnar.

Gymaint yn wir oedd dylanwad y teulu fel yr ymddangosodd hysbyseb yn y papur (a hynny sbel ar ôl i Richard Evans farw) yn gofyn i rywun o'r teulu gysylltu â Gobowen er mwyn trefnu i'r ysbyty noddi'r person i fynd yn ei flaen i arbenigo mewn trin esgyrn. Ond wrth gwrs, ddaeth dim o hynny.

UN O hynodion pennaf triniaethau Richard Evans oedd yr olew gewynnau a gynhyrchid ac a werthid ganddo yn Adferle. Yr adeg honno yr oedd tri math gwahanol ohono i'w gael ac er bod y rysettiau ar gael heddiw, un math yn unig a gynhyrchir bellach gan ŵyr y gw'r a welir ar y chwith yn y llun.

Ym Mryncir yn Eifionydd y mae Gwyn Evans, mab John Evans ac ŵyr i Thomas Evans (brawd Richard Evans) yn byw, a'i eiddo ef ac un aelod arall o'r teulu yw cyfrinach yr olew gewynnau erbyn hyn. (Ni ŵyr Gwyn pryd nac ymhle yn union y cynhyrchwyd yr olew gyntaf ond yr ydym ni'n sôn am gyfnod o gan mlynedd a mwy yn ôl.

Yr unig wahaniaeth sylfaenol rhwng rysét ddoe a heddiw yw yr arferid rhoi sbelan go lew o wyau ynddo ers talwm ond ni roddir yr un o gwbl heddiw. Fe'i cynhyrchir yn gyson gan Gwyn a hynny yn ôl y galw sydd amdano i leddefu



RICHARD EVANS

gewynnau poenus yn lleol neu mewn mannau mor bell â Buffalo yn yr Amerig a chlybiau pêl-droed Everton a Manchester United yn Lloegr.

CYN CLOI, mae hi'n werth arddod un stori am Richard Evans. Bu rhieni Gwyn yn byw am gyfnod yn rhif 5 Penllystyn, Bryncir, a'i nain yntau gyda hwy. Un diwrnod, mi syrthiodd yr hen wraig wrth y grât gan dorri pont ei hysgwydd a'i braich. Gyrrwyd yn syth am Dr. Ellis o Ben-y-groes ac anfonodd yntau hi ar ei hunion i Fangor.

Bu yn yr ysbyty yno am bythefnos ond adref y daeth hi heb i'r un meddyg wneud dim i'w gwella. Mae'n debyg fod y crac ym mhont yr ysgwydd mewn lle mor ddrwg nes y gellid ei pharlysu wrth ymyrryd gormod.

Fodd bynnag, y munud y daeth hi adref fe anfonodd ei fam am Dewyrth Richard, sef Richard Evans, i ddod i weld yr

hen wraig. Er mai wisgi neu rum oedd ei anasthetig fuo fo fawr o dro yn rhoi'r ysgwydd a'r fraich yn eu lle cyn eu bandio'n gadarn.

Gadael i bethau fod wedyn am gyfnod cyn tynnu'r rhwymau a chredwch neu beidio, theimlodd nain Gwyn ddim poen oddi wrth y fraich na'r ysgwydd hyd ddiwedd ei hoes. Fe alwodd Dr. Ellis heibio i'w gweld a synnu sut y llwyddodd Richard Evans i gyflawni'r fath orchwyl a meddygon Bangor wedi methu.

Nis oes amheuaeth nad oedd Richard Evans yn ŵr caredig, agos iawn i'w le fel capelwr a blaenor ym Mhwlheli, ond yr oedd hefyd yn ddigon digrif ei ffordd. Fe gladdodd ei ddwy wraig gyda'i gilydd yn yr un bedd ac yna dewis bedd arall iddo'i hun! Dyn unigryw fel yna oedd o; petai o'n fyw heddiw fe'i hystyrid yn ddyd mawr.

RECORD Y GWYDDEL

DARLLEDWR o Wyddel oedd Tommy O'Brien a chasgliad enfawr o saith mil o recordiau ganddo. Bu'n cyflwyno recordiau o Iwerddon am 35 o flynyddoedd ar ei raglen radio *Your Choice and Mine* ac roedd tyra dda o wrandawyr o Gymru yn gwrandao yn gyson ar ei raglenni. Bu farw Tommy ar y pedwerydd ar hugain o Chwefror eleni a'i angladd oedd yr un mwyaf a welwyd yn Clonmel lle'r yngartrefodd.

Roedd Tommy yn berson arbennig i lawer o wrandawyr Cymreig yr arferai droelli llawer o recordiau o hen artistiaid Cymraeg, cantorion nas clywyd erioed ar y radio yng Nghymru.